PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Gweinyddiaeth Myfyrwyr

## Nodau

Mae Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn ymdrin â meysydd Amserlennu, Cofrestru ac Ymrestru, Arholiadau, Cymwysterau, Graddio a Gweinyddu Rhaglenni. Ein nod yw darparu gwasanaeth gweinyddu effeithlon sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr er mwyn eu cefnogi drwy gydol eu taith academaidd, o gofrestru i raddio. Rydym yn datblygu ein systemau gweinyddol yn barhaus mewn ymateb i sylwadau myfyrwyr i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'n cymuned amrywiol o fyfyrwyr. Rydym yn cyfnerthu ein systemau trwy wybodaeth a chyngor ar-lein ac wyneb yn wyneb i gynorthwyo myfyrwyr i wneud y gorau o'u profiad academaidd. Rydym yn gweithio'n agos gyda staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol eraill mewn dull cynhwysfawr o ddatblygu systemau ymatebol a hygyrch i'r brifysgol gyfan sy'n sail i'n darpariaeth academaidd.

## Amcanion

### Amserlennu
Darparu amserlen addysgu gydlynol, gan alluogi'r defnydd gorau o gyfleusterau'r brifysgol i ateb gofynion amrywiol dulliau addysgu newydd ac arloesol, tra hefyd yn sicrhau y rhoddir y pwys mwyaf ar hygyrchedd i staff a myfyrwyr.

### Ymrestru a Chofrestru
Cefnogi trefn ddi-dor o wneud cais cychwynnol ymlaen trwy ymrestru i gofrestru gyda'r brifysgol.

### Arholiadau
Rhoi cefnogaeth ac arweiniad i fyfyrwyr yn ystod y cyfnodau asesu, a llunio amserlen arholiadau sy'n caniatáu digon o amser rhwng arholiadau i fyfyrwyr baratoi ar gyfer pob un.

### Cymwysterau
Darparu holl ddogfennau cymwysterau (tystysgrifau a thrawsgrifiadau) yn brydlon ar ôl cadarnhau cymwysterau gan ysgolion academaidd.

### Graddio
Darparu digwyddiad pleserus a dathliadol ar ddiwedd taith myfyriwr gyda'r brifysgol.

### Gweinyddu Rhaglenni / Cofnodion Myfyrwyr
Darparu systemau hygyrch ac effeithlon i gefnogi gweithgareddau addysgu a dysgu. Rhoi gwybodaeth a chyngor i fyfyrwyr gan gyfeirio at y systemau gweinyddol sy'n sail i'w taith academaidd. Sicrhau fod cofnodion personol ac academaidd pob myfyriwr yn cael eu gweinyddu'n effeithlon.

Sue Peet
Pennaeth Gweinyddiaeth Myfyrwyr

Hydref 2019